

CompTIA eDdysgu - Network+ (N10-009)



Yn gryno

CompTIA yw corff ardystio TG gwerthwr-niwtral mwyaf y byd. Os ydych chi am gyflymu eich gyrfa tuag at seilwaith TG, yna mae'n hanfodol cyflawni eich ardystiad Rhwydwaith CompTIA +.

Mae ardystiad CompTIA Network+ yn gymhwyster fendwr niwtral, a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer gweithwyr TG proffesiynol sy'n arbenigo mewn offer a thechnolegau rhwydweithio. Mae'r cwrs Network+ yn dilysu'ch arbenigedd i ddylunio a gweithredu rhwydweithiau swyddogaethol, sut y gallwch chi ffurfweddu, rheoli a chynnal dyfeisiau rhwydwaith yn seiliedig ar dechnolegau rhwydweithio uwch.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un dros 19 oed, sy'n byw yng Nghymru ac sy'n gweithio. Nid yw'r terfyn cyflog



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

... unrhyw weithiwr proffesiynol TG sy'n edrych i arbenigo mewn rhwydweithio ac agor llwybr newydd o'u gyrfa mewn rhwydweithio neu gymorth TG.

Cynnwys y cwrs

Cyflwynir y cwrs hwn gan ystafell ddosbarth rithwir. Mae ystafelloedd dosbarth rhithwir yn cyfateb i gyrsiau ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ond yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ar-lein.

Hyd y Cwrs: 5 diwrnod

Mae'r cwrs CompTIA Network+ swyddogol yn cwmpasu'r canlynol:

Cysyniadau Rhwydweithio
Seilwaith
Gweithrediadau Rhwydwaith
Diogelwch Rhwydwaith
Datrys Problemau gyda Rhwydweithiau ac Offer Rhwydwaith

Gofynion Mynediad

Bydd angen arnoch ardstiad CompTIA A+ ac o leiaf 9-12 mis o brofiad ymarferol yn gweithio mewn swydd gweinyddwr rhwydwaith iau / technegydd cymorth rhwydwaith.

Bydd angen mynediad i'r rhyngrwyd, cyfrifiadur windows a gwe-gamera/meicroffon arnoch

Gwybodaeth Ychwanegol

Bwriad y rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad gyrfa o safon i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu dysgu.

Cyn i chi gofrestru ar eich cwrs a ariennir gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi i sicrhau bod y dysgu cywir wedi'i ystyried.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd cysylltiedig
profiad blaenorol o fewn y diwydiant neu faes
dyheadau gyrfa
ymroddiad o amser sydd ei angen
mynediad i'r rhyngwyd, cyfrifiadur windows a gwe-gamera/meicroffon

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

